CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| Cofnodion cyfarfod 12fed o Chwefror 2025 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr | | |
|---|---|---|
| **PRESENNOL** | | |
| **Bethan Holding** | **Gwilym Evans (cadeirydd)** | |
| **Rhys Ap Gwilym** | **Helen Sharp** | |
| **Emlyn Baylis** | **Iola Owen** | |
| **Trystan Thomas** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Gwilym Evans. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol, Cynghorydd Louise Price, Cynghorydd Kim Jones, Cynghorydd Llinos Haf Pritchard, Cynghorydd Kevin Jones, Cynghorydd Iwan Harding. | **CLERC** |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | |
| **1.2** | Cynllun y Wyddfa – derbyniwyd y wybodaeth. | **Clerc** |
| **1.3** | Sefydlu Ysgol Deintyddiaeth ym Mangor – cefnogi ymgyrch Sian Gwenllian. | |
| **1.4** | Cod Ymddygiad – derbyn y gwahoddiad, roedd pawb yn cael ei annog i fod yn bresennol unai ar y 14fed neu 27ain o Fawrth. Y Cynghorwyr i adael y Clerc wybod. | |
| **1.5.** | Cyfeillion Llŷn – trafodwyd y cais ond penderfynwyd bod gan y Cyngor ei bolisïau sydd yn ddigonol a phriodol. | |
| **1.6** | Storfa y Cyngor – fe drafodwyd y storfa yn sgil derbyn copi o'r brydles gan Ambiwlans Sant Ioan. Gweler bod amserlen y brydles wedi hir fynd. Fe drafodwyd hefyd pwy oedd bellach gyda goriad i fynd yno ac yn anffodus nid oes rhestr cyfredol. Penderfynwyd bod angen cyfarfod gyda Ambiwlans Sant Ioan, cysylltu a chyfreithiwr a newid clo yr adeilad. Y Clerc i weithredu. | **CLERC** |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Mae rhan fwyaf o'r cynghorwyr gyda diddordeb yn amryw o'r mudiadau sydd wedi cyflwyno cais am gymorth ariannol felly mae datganiad cyffredinol yn cael ei wneud ar eitem 3.2. | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| **3.1** | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Ionawr 2025 a'u derbyn. | |
| **3.2** | Ystyried ceisiadau am gymorth ariannol – fe ystyriwyd y ceisiadau canlyno a phenderfynwyd ar y swm. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Mudiad** | **2025** |
| 1 | Cylch Meithrin Llanberis | 500 |
| 2 | Girlguiding Llanberis | 500 |
| 3 | Band Llanrug | 500 |
| 4 | Cor Dyffryn Peris | 500 |
| 5 | Caer Ddol | 500 |
| 6 | CPD Llanberis | 500 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 7 | Merched y Wawr | 500 | | |
| | 8 | Eco'r Wyddfa | 500 | | |
| | | Cyfanswm | £4,000 | | |

| | | |
|---|---|---|
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Rhlonawr 2025 | |
| **4.2** | Bin sbwriel Cae Chware Lan Llyn. Penderfynwyd prynu a gosod bin fel Cyngor ac yn trefnu cael ei wagio gan Wynedd; trefniadau wedi ei gwneud gyda'r swyddog Priodol. Archeb wedi ei wneud ond nid yw'r bin ar y safle hyd yma. | **CLERC** |
| **4.3** | Cerflun Stryd/Coffa Chwarelwyr – yn anffodus nid yw'r cais cynllunio wedi bod yn lwyddiannus. Mae angen bellach edrych am leoliad arall. Mae'r gwaith yma bellach yn cael ei reoli gan Gyngor Gwynedd. Mae'r Cynghorydd Emlyn Baylis wedi ymgynghori a'r Feddygfa yn ddiarwybod i'r Cyngor i ofyn oes byddai modd i'r cerflyn gael ei roi yn ngardd Gymunedol y Feddygfa. Fe wrthodwyd y cais er nid oeddynt wedi derbyn yr holl wybodaeth. Penderfynwyd byddai'r Clerc a Chadeirydd y Cyngor yn cynnal cyfarfod gyda'r Feddygfa ynglŷn a'r safle pan yn briodol i wneud hynny. Y Clerc wedi cysylltu a Chyngor Gwynedd ar y mater. | **CLERC** |
| **4.4** | Panel HBO – penderfynwyd bod digon o wybodaeth wedi ei dderbyn ar y ceisiadau a bod hwy bellach yn gymwys ar gyfer y grantiad. Bydd yr isod yn derbyn grantiau: | **CLERC** |

| | |
|---|---|
| **RYAN JAMES STUDIO** | Creu ffilm ar gyfer Clwb Peldroed Llanberis<br><br>£2500 |
| **THE CHILLED MIND PROGRAMME** | Digwyddiadau nofio gwyllt a sesiynau llesia<br><br>£3244 |
| **LLECHIFFON ST. PADARN** | Creu Llechiffon (Offeryn Cerdd) sydd yn de<br>Xylophone sydd wedi ei wneud allechi<br>£5760.96 i'w dalu mewn dwy ran. |
| **St Peris Church Nant Peris** | Offer gwresogi'r eglwys .<br><br>£4300 |
| **GRWP DATBLYGU LLANBERIS** | Argraffu taflen ar gyfer twristiaid er mwyn e<br>hannog i fewn i'r pentref.<br><br>£2967.06 |
| **Dafydd Whitside Thomas** | Argraffu llyfr ar am Llanberis.<br><br>£3400 |

| | | |
|---|---|---|
| **4.5** | Campfa Awyr Agored – mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn penderfyniad y Cyngor Cymuned i ddefnyddio Playquest. Disgwylir bellach am gyfarwyddyd i gychwyn ar y gwaith. | **CLERC** |
| **4.7** | Is-ddeddfau - dim datblygiad wedi bod ar y mae mater hwn hyd yma. Penderfynwyd byddai yn well cael grŵp bychan i ymdrin â'r mater. Y grŵp heb ei godi hyd yma. Y Clerc i wneud ymchwil i edrych os oes cynghorau eraill wedi gwneud rhai a sut roeddynt yn eu gorfodi. | **CLERC/BH** |
| **4.8** | Waliau fyny i'r bwlch – dim ymateb cadarnhaol wedi bod oddi wrth Wynedd na'r Parc. Mae'r mater wedi ei godi gan y Cynghorydd Sir gydag aelod o'r Parc Cenedlaethol. Mae Cyngor Gwynedd wedi addo anfon arolygydd ffordd i asesu'r sefyllfa ond nid oes adroddiad wedi dod i law. | **GTE** |
| **4.9** | Parcio – cafwyd eglurhad gan y Clerc byddai newid y Maes Parcio o flaen y Clwb Cymdeithasol dros y Gaeaf i Faes Parcio aros hir yn cael effaith arno gan fyddai deilwyr tocyn parcio gwynedd yn cael parcio yno dros y gaeaf heb dalu; golygai hyn byddai y safleoedd yn cael eu llenwi a bod dim neu lleiaf fychan ar gael lle byddai angen i bobl dalu a byddai hyn yn golygu bod cyfraniad 10% i'r Cyngor Cynumed o'r elw. Hefyd fe newidwyd y maes parcio i arhosiad byr ar gais y Cyngor Cymuned. | |
| **4.10** | Materion Priffyrdd – fe gafwyd rhestr gan Gyngor Gwynedd o'r nifer a lleoliadau y biniau halen o fewn y Gymuned. Wedi nodi ar y rhestr oedd pa rai oedd angen eu llenwi yn rheolaidd ar ôl defnydd adeg tywydd garw. Roedd rhai ffyrdd gyda sawl bin a rheiny heb eu defnyddio. Penderfynwyd symud dau oddiwrth un ffordd lle roedd nifer ar gyfer lleoliad ger Dol Elidir a'r llall ar gyffordd Fron Goch a Ffordd Tŷ Du. | |
| **5.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| **5.1** | Cafwyd adroddiad bod wal llwybr 23 wedi dymwchel ar ben ffens sydd ar y llwybr. Y Clerc i ddod a'r achos i sylw Cyngor Gwynedd. | **CLERC** |
| **5.2** | Daeth llythyr yn gwneud cais am gefnogaeth y Cyngor i cyflwyno Llwybr Cylchod Llyn Padarn. Penderfynwyd y Cyngor i gefnogi mewn egwyddor. | **CLERC** |
| **6.0** | **Y FYNWENT** | |
| **6.1** | Cyfarfod o'r pwyllgor wedi ei gynnal. Adroddiad i'w ddilyn gan y Cadeirydd. Copi i'w anfon at y Clerc yn fuan. | **CLERC** |
| **7.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | | |
| **8.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL** | |
| **8.1** | Mater o gael fwy o aelodau ar y pwyllgor Gweithgareddau CYmunedl i'w drafod yng nghyfarfod is Mawrth. | |
| **9.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| | Rhoddwyd adroddiad lafar gan y Clerc ar gyfarfod Partneriaeth Dyffryn Peris. | |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 9 yn y r hwyr. | |

| **Llofnod:** | Gwilym T. Evans. | **Dyddiad: 12/3/25** |
|---|---|---|